Hawdd ei Ddeall

2


# Pecyn Cymorth Mynediad at Wleidyddiaeth

## Cam 2. Ymuno â phlaid wleidyddol

disability wales
anabledd cymru

# Am y llyfryn yma

This is an Easy Read version of: **Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth – Cam 2. Ymuno â phlaid wleidyddol.**




Mae’r rhan yma o’r pecyn cymorth am:

- Dewis plaid wleidyddol i ymuno â hi.
- Esbonio eich anghenion cymorth.
- Ymuno â phlaid.
- Eich hawliau.



Efallai y byddwch chi angen help i’w ddarllen. Rydych chi’n gallu gofyn i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.

# Cynnwys

Sut i ddewis plaid wleidyddol ........ 4

Ymuno â phlaid – beth sy'n digwydd fel arfer ........ 10

Beth i'w ddisgwyl fel aelod newydd ........ 15

Deall rheolau heb eu hysgrifennu ........ 18

Dod dros rwystrau pan fyddwch chi'n ymuno ........ 21

Eich hawliau pan fyddwch chi'n ymuno â phlaid........ 27

Camau cyntaf rydych chi'n gallu eu gwneud ar hyn o bryd...30

Mwy o wybodaeth ........ 32

# Sut i ddewis plaid wleidyddol



Mae pleidiau gwleidyddol yn gallu bod yn wahanol iawn. Mae'r cam yma yn eich helpu i ddewis y blaid sy'n iawn i chi.



Does dim angen i chi wybod popeth am wleidyddiaeth.



Mae'n bwysicach dod o hyd i blaid sy'n eich gwerthfawrogi. Fe ddylech chi deimlo'n ddiogel ac yn gallu cymryd rhan.



**Meddyliwch am:**

- Ydy'r blaid yn rhannu beth rydych chi'n gredu a'r cynlluniau sy'n bwysig i chi?
- Ydy'r blaid yn deall eich bywyd a'r materion rydych chi'n poeni amdanyn nhw.
- Ydy'r blaid yn croesawu gwahanol bobl.
- Oes gennych chi unrhyw bryderon am y blaid?
- Oes gan y blaid gynllun ar gyfer tegwch a chynnwys pobl?




Does dim un blaid yn berffaith. Does dim angen i chi ddewis un ar unwaith. Rydych chi'n gallu newid eich meddwl dros amser.

## Grwpiau pleidiau lleol



Mae gan y rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol grwpiau lleol. Dyma lle mae aelodau'r blaid leol yn cyfarfod ac yn gweithio gyda'i gilydd.



Mae grwpiau pleidiau lleol yn gallu bod yn wahanol iawn. Edrychwch i weld os oes gan eich grŵp lleol:



- Rhywun sy'n gyfrifol am anabledd a thegwch.



- Aelodau anabl.



- Cyfarfodydd hygyrch – cyfarfodydd lle mae pobl ag anghenion gwahanol yn gallu cymryd rhan.



- Yn barod i wrando a gwella.

Rydych chi'n gallu gwneud hyn trwy ddarganfod:



- Os ydy cyfarfodydd yn bersonol, ar-lein neu'r ddau.



- Os ydy'r swyddfa neu'r adeilad yn hawdd mynd i mewn iddo a mynd o gwmpas y tu mewn. Er enghraifft, a oes grisiau, toiledau hygyrch.




- Os ydych chi'n gallu teithio yno yn hawdd.



- Os oes ganddyn nhw bobl sy'n edrych ar faterion cydraddoldeb, diogelwch ac anabledd.



Os nad ydy eich grŵp lleol yn teimlo'n iawn i chi eto, rydych chi'n gallu ymuno â'r blaid genedlaethol o hyd.



Rydych chi'n gallu dysgu mwy am y blaid a'ch grŵp lleol yn breifat. A chymryd rhan ar eich cyflymder eich hun.

# Ymuno â phlaid – beth sy'n digwydd fel arfer

**I ymuno â phlaid wleidyddol, mae'n rhaid i chi fel arfer:**



- Llenwi ffurflen gais.
- Talu ffi aelodaeth.



- Aros am ateb gan y blaid.



- Cael manylion eich grŵp lleol.




- Fe fyddwch chi'n cael gwybodaeth am y blaid a bod yn aelod.

**Mae hyn yn gallu bod yn anodd oherwydd:**



- Mae'r ffurflenni yn gallu bod yn anodd eu darllen a'u llenwi.



- Dydy e ddim yn glir beth sy'n cael ei wneud gyda'ch gwybodaeth




- Dydych chi ddim yn cael y cyfle i rannu eich anghenion cymorth.



- Dydych chi ddim yn cael gwybod beth sy'n digwydd nesaf.



- Dydych chi ddim yn cael person cyswllt.

# Rhannu eich anghenion cymorth



Dydy'r rhan fwyaf o bleidiau ddim yn gofyn am eich anghenion cymorth.



Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl anabl gymryd rhan lawn.




Mae'n bwysig rhannu eich anghenion cymorth.



Dydych chi ddim yn gofyn am driniaeth arbennig. Eich hawl chi ydy cael eich cynnwys.



Mae rhannu eich anghenion yn eich helpu i gael y gefnogaeth gywir. Ac mae'n helpu'r blaid i gynnwys mwy o bobl.

**Rydych chi'n gallu rhannu:**



- Y ffordd orau o gyfathrebu â chi.



- Beth rydych chi ei angen i gymryd rhan mewn cyfarfodydd.



- Bod angen seibiannau arnoch chi.




- Bod angen gwybodaeth mewn gwahanol fformatau – fel hawdd ei ddeall, neu brint bras.




- Dydych chi ddim yn hoffi cymryd galwadau ffôn.



• Rydych chi angen mannau tawel i weithio ynddyn nhw, neu oleuadau penodol.



• Rydych chi angen help gyda ffurflenni neu brosesau penodol.




Rydych chi'n gallu defnyddio'r **Ffurflen Datblygiad Personol** yn y pecyn cymorth yma i'ch helpu i siarad am eich anghenion.




Gofynnwch i'r blaid i bwy ddylech chi anfon eich anghenion cefnogaeth. Fe ddylen nhw roi enw person yn y blaid i chi.

# Beth i'w ddisgwyl fel aelod newydd



Ar ôl ymuno mae llawer o bobl yn teimlo'n ansicr beth i'w wneud nesaf.

**Fe ddylech chi gael:**




- E-bost croeso – rydych chi'n gallu ymateb a gofyn am berson cyswllt.




- Gwahoddiadau i gyfarfodydd – ewch pan fyddwch chi'n teimlo'n barod.

# Teimlo yn anghyfforddus



Mae llawer o bobl yn teimlo allan o le ar y dechrau.



Mae cyfarfodydd yn gallu bod yn anodd cymryd rhan ynddyn nhw. Dim eich bai chi ydy hyn.




Fel arfer oherwydd nad ydy'r blaid wedi meddwl am anghenion gwahanol. Rydych chi'n gallu eu helpu i wneud newidiadau.

**I helpu gyda hyn, rydych chi'n gallu:**



- Mynd i gyfarfod dim ond i wylio sut mae'n mynd.





- Gofyn am weld papurau'r cyfarfod cyn dyddiad y cyfarfod.

- Gofyn am ddolen i ymuno ar-lein.



- Cysylltu â rhywun sy'n sefyll i fyny dros hawliau pobl anabl.



- Ymuno gyda grwpiau ar-lein, ar bethau fel Facebook a WhatsApp.



- E-bostio pobl yn y blaid yn esbonio eich bod chi'n newydd. Gofyn iddyn nhw sut rydych chi'n gallu cymryd rhan.

# Deall rheolau heb eu hysgrifennu



Mae rheolau heb eu hysgrifennu yn rheolau mae pobl yn meddwl bod pawb yn eu gwybod. Ond dydyn nhw ddim  yn cael eu hysgrifennu nac yn cael eu siarad amdanyn nhw.

**Mae hyn yn gallu bod yn ddryslyd. Mae'n gallu bod yn bethau fel:**



- Pryd ddylech chi siarad mewn cyfarfodydd.



- Sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.



- Pwy mae pawb yn edrych arno ac yn gwrando arno wrth wneud penderfyniadau.



- Sut mae pobl yn cael eu dewis ar gyfer rolau.




- Pa gyfarfodydd sy’n bwysig a pha rai sydd ddim.




Mae’n gallu bod yn anoddach i bobl anabl ddod i arfer â rheolau heb eu hysgrifennu.



Mae **mentor** neu **rwydwaith cymheiriaid** yn gallu helpu gyda hyn.



Mae **mentor** yn rhywun sy'n eich cefnogi i wella mewn rhywbeth.



Mae **rhwydwaith cymheiriaid** yn grŵp o bobl, mewn sefyllfaoedd tebyg i chi, sy'n cefnogi ei gilydd.

# Dod dros rwystrau pan fyddwch chi'n ymuno



Mae **rhwystrau** yn bethau sy'n eich stopio neu'n ei gwneud hi'n anoddach i chi gymryd rhan lawn.



Dyma rai enghreifftiau o rwystrau a sut rydych chi'n gallu dod drostyn nhw.

# Rhwystr: Cyfarfodydd sydd ddim yn hygyrch

**Dod dros hyn:**



- Gofynnwch ydych chi'n gallu ymuno â chyfarfod personol ar-lein.



- Gofynnwch am gapsiynau neu drawsgrifiadau – dyma pryd mae geiriau llafar yn cael eu hysgrifennu ar eich sgrin.




- Awgrymwch eu bod yn cynnwys hygyrchedd ar bob agenda. Mae hyn yn meddwl eu bod bob amser yn meddwl am newidiadau maen nhw'n gallu eu gwneud i gynnwys pawb.

## Rhwystr: Dim swyddog anabledd lleol

**Dod dros y rhwystr yma:**



- Gofynnwch pwy sy'n rheoli, gan gynnwys pobl.



- Gofynnwch am swyddog anabledd i gael ei benodi.



- Cynnig gweithio gyda'r blaid i greu swyddog anabledd.




- Defnyddiwch gynlluniau a pholisïau pleidiau cenedlaethol.

## Rhwystr: Dydy swyddogion ddim yn ymateb i chi

**Dod dros y rhwystr yma:**



- Gofynnwch am rywun arall sydd yn gallu cysylltu â chi.



- Copïwch swyddogion eraill i'ch negeseuon e-bost.





- Ewch i gyfarfod a chyflwynwch eich hun i'r swyddog.




- Gofynnwch i rywun eich cefnogi chi.

**Dod dros y rhwystr yma:**




- Ewch i gyfarfodydd unwaith bob ychydig fisoedd ar y dechrau.



- Dechreuwch gyda digwyddiadau ar-lein.



- Defnyddiwch negeseuon e-bost yn lle  mynd i gyfarfodydd.



- Cymerwch eich amser eich hun. Does dim rhaid i chi fynd i bob cyfarfod a digwyddiad.

## Rhwystr: Poeni am beidio â ffitio i mewn

**Dod dros y rhwystr yma:**



- Cofiwch bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn teimlo fel hyn.




- Canolbwyntiwch ar beth sy'n bwysig i chi.



- Cysylltwch ag aelodau anabl eraill.

# Eich hawliau pan fyddwch chi'n ymuno â phlaid

**Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i bleidiau gwleidyddol:**




- Darparu **addasiadau rhesymol** – newidiadau i'w gwneud hi'n haws i chi gymryd rhan.



- Cynnig cyfleoedd cyfartal i wahanol bobl gymryd rhan.



- Gwneud cyfarfodydd a ffyrdd o weithio yn **hygyrch**.




- Cyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd - fel Cymraeg Clir, Hawdd ei Ddeall, a fideo.




Ddylai cymryd rhan byth ddibynnu ar:



- Y gallu i deithio yn y nos.




- Y gallu i sefyll am gyfnodau hir.




- Y gallu i ddeall jargon.



- Y gallu i ddefnyddio ffonau.




- Y gallu i fynychu pob cyfarfod.



**Mae hygyrchedd yn hawl, nid yn ffafr.**

# Camau cyntaf rydych chi’n gallu eu gwneud ar hyn o bryd

**Os ydych chi’n meddwl eich bod chi eisiau ymuno â phlaid, rydych chi’n gallu gwneud pethau bach, fel:**




- Edrych trwy eu gwefannau.



- Gofyn i ffrindiau, teulu a phobl eraill am eu barn a’u cyngor.



- Mynd i gyfarfod agored neu gyfarfod cyhoeddus.



- E-bostio swyddog cydraddoldeb a gofyn iddyn nw am hygyrchedd a sut maen nhw’n cefnogi pobl ag anghenion gwahanol.




- Siarad â rhywun sydd yn aelod yn barod.



- Ysgrifennu rhywbeth rydych chi ei angen i gymryd rhan.



**Rydych chi'n gallu ymuno pan fyddwch chi'n barod. Neu ddim o gwbl. Eich dewis chi ydy hynny.**




Pan fyddwch chi'n teimlo'n gyfforddus i ymuno, fe fydd cam 3 yn eich helpu i gymryd rhan gyda'r blaid rydych chi'n ei dewis.

# Mwy o wybodaeth

disability wales
anabledd cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Kat Watkins**, Swyddog Prosiect Mynediad at Wleidyddiaeth:



**Gwefan:**

disabilitywales.org/projects/access-to-politics/cy



**E-bost:**

kat.watkins@disabilitywales.org

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247